

Ysgol Gynradd Waunarlwydd

Abertawe

“ Mae Cyngor Ysgol gweithgar yn gwneud bywyd yn haws o lawer i'r staff. Mae'n creu awyrgylch tawel, hapus ac yn annog dysgu.” Ruth Davies

Mae'r ffaith fod Cyngor Ysgol Waunarlwydd wedi bod yn rhedeg ers dros un mlynedd ar ddeg yn siarad cyfrolau am y gwerthfawrogiad, y parch, a'r gefnogaeth y mae'n eu hennyn.

Yr hyn sy'n gwneud y Cyngor hwn yn arbennig yw'r ffordd y mae wedi datblygu i fod yn rhan annatod o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae ei ddylanwad yn ganolog i'r broses benderfynu, ac mae'r buddion a ddaw i'r ysgol ac i'r disgyblion wedi agor llygaid a meddyliau pawb sy'n ymwneud â'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn sylweddoli bod llais ganddynt, a chyfle i ddweud eu dweud gyda'u barn yn cael ei chlywed a'i pharchu. Ond ynghlwm â'r llais hwnnw daw cyfrifoldeb, a thrwy waith y Cyngor, mae'r disgyblion wedi dysgu cydnabod pwysigrwydd ymddygiad da a gwerthfawrogi gwerthoedd cyfranogiad gweithredol.

Mae'r staff a'r llywodraethwyr hefyd yn canmol rhinweddau'r Cyngor gweithgar sy'n eu helpu nhw i weld materion o bersbectif gwahanol – drwy lygaid y disgyblion – a dod o hyd i atebion sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion yn y ffordd orau.



“Mae'n bwysig ein bod ni'n cael ein holi ynglŷn â sut yr hoffen ni weld ein hysgol yn gwella.”

Aelod o'r Cyngor

Enw cyswllt: Ruth Davies

Ffôn: 01792 872431

Ebost: Waunarlwydd.Primary@swansea-edunet.gov.uk